Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc ym:

## **Merthyr Tudful**

ISBN: 978-1-84099-288-5

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc ym Merthyr Tudful ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygiadau Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 91% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill ei wneud yn ddigon da 83% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 87% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer Gwaith Diogelu oedd 65%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Risg o Niwed oedd 61%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Tebygolrwydd o Aildroseddu oedd 68%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-86%.

Fel ardal mae gan Ferthyr Tudful lefel gymharol uchel o amddifadedd a phroblemau cymdeithasol. Yn ôl gwybodaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, mae gan Ferthyr Tudful niferoedd uchel o blant yn cael eu dedfrydu'n gyson i unedau dan glo'. Mae hyn wedi bod yn destun pryder i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac mae cyllid ychwanegol wedi cael ei roi i'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

Nid yw ein methodoleg yn arolygu dedfrydu, ac felly ni allwn wneud sylw ar y rhesymau dros y cyfraddau uchel o ddedfrydau dan glo. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cyflawni asesiadau trylwyr yn y cam cyn-dedfrydu a bod yr asesiadau hyn yn sail ar gyfer adroddiadau o ansawdd da sy'n amlinellu cynlluniau dedfrydu realistig. Mae'r ymyriadau hefyd o ansawdd uchel a, lle bo angen, yn gyfyngus a dwys fel bo'n briodol.

Ar y cyfan, rydym yn ystyried bod y darganfyddiadau hyn yn rhai cymeradwy iawn, yn wir ymhlith y sgoriau gorau hyd yma, yng Nghymru a Lloegr, yn y rhaglen arolygu.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Mehefin 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r person cyswllt gweinyddol o'r Tîm Troseddwyr Ifanc, Alison Dixon, a'r holl staff o'r Tîm Troseddwyr Ifanc, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Mark Boother* |
| *Aseswyr Ymarfer* | *Yvonne Schlaberg* |
| *Asesydd CCI* | *Gwyn Griffiths* |
| *Staff Cymorth* | *Andy Doyle* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 11 |
| 1.3 Diogelu: | 12 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau’r Risg o Niwed i eraill: | 14 |
| 2.2 Lleihau’r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 15 |
| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | 16 |
| 3. CANLYNIADAU | 18 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | 18 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau: | 19 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 20 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 21 |
| Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 22 |
| Atodiad 3b: Data’r arolygiad | 23 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a’r Cod Ymarfer | 23 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 24 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o'r 'meini prawf ymarfer' sy'n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy'n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***91%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd:* sgôr *Risg o Niwed*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***83%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:***<br>***87%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o'r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (rhoddir y person sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad cywir yn cael ei wneud ar ddechrau pob ymyriad (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(2) bod cynllun yn delio â'r Risg o Niwed Difrifol i eraill a chynllun agored i niwed yn cael eu cynhyrchu lle bo angen (Rheolwr y Tîm)

(3) bod cynlluniau ymyrryd yn blaenoriaethu gwaith i ddelio â *Risg o Niwed* a diogelwch y dioddefwr ac yn cael eu hadolygu'n gyson yn unol â safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Tîm)

Hefyd:

(4) bod adolygiad yn cael ei wneud o brofiad dioddefwyr o waith y Tîm Troseddwyr Ifanc ac unrhyw welliannau angenrheidiol i arferion yn cael eu gweithredu (Rheolwr y Tîm).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio'n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd naw o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn.

- Roedd y plant a'r bobl ifanc i gyd yn glir ynghylch sut fath o orchymyn oedd ganddynt ac wedi trafod eu contract neu gynllun goruchwyliaeth gyda'u gweithiwr yn y Tîm Troseddwyr Ifanc. Dywedodd wyth allan o'r naw eu bod wedi derbyn copi o'r contract neu'r cynllun i'w gadw.
- Roedd staff wedi egluro i'r plant a'r bobl ifanc i gyd pam oeddent wedi dod at y Tîm Troseddwyr Ifanc. Teimlai bob un ohonynt fod gan staff y Tîm ddiddordeb gwirioneddol yn eu helpu, eu bod yn gwrando arnynt ac yn delio ag unrhyw beth yr oeddent angen cymorth gyda nhw.
- Roedd bob un o'r plant a'r bobl ifanc wedi cael problemau camddefnyddio cyffuriau a dywedodd bob un eu bod wedi derbyn cymorth. Dywedodd chwech allan o'r naw fod pethau wedi gwella iddynt yn yr ysgol, coleg neu gyda dod o hyd i waith.
- Teimlai wyth allan o'r naw fod eu gwaith gyda'r Tîm wedi eu gwneud yn llawer llai tebygol o droseddu.

### Dioddefwyr

Cafodd ddau holiadur eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Teimlai un o'r ddau ddioddefwr fod y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi egluro'r gwasanaethau y gallent eu cynnig yn drylwyr, roedd y llall yn anghytuno.
- Nid oedd yr un o'r ddau ddioddefwr yn teimlo'n fodlon o gwbl gyda'r gwasanaeth oedd wedi cael ei gynnig gan y Tîm nac ychwaith eu bod wedi talu digon o sylw i'w hanghenion.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Tîm Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**1.3** | Cafodd asesiad trylwyr iawn ei gyflawni ar Larry, a oedd â hanes hir o droseddu a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol. Roedd yn hysbys bod ganddo anawsterau dysgu ac roedd wedi'i asesu i fod yn agored i niwed. Cymerwyd gofal arbennig i sicrhau y byddai'r cynllun dedfrydu a luniwyd yn cael ei ddarparu gan dîm o arbenigwyr. Cymerodd yr arbenigwyr hyn fwy o amser i sicrhau bod Larry'n deall y cynllun a'i fod yn cael ei gadw'n ddiogel. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**2.2** | Roedd Dennis wedi'i gael yn euog o ddifrod troseddol ac wedi'i ddedfrydu i orchymyn atgyfeirio. Paratowyd contract cynhwysfawr gyda phum amcan wedi eu dyfeisio i ddelio â'i ymddygiad troseddol. Nid oedd gan Dennis unrhyw ddynion a oedd yn fodelau rôl cadarnhaol iddo a dim diddordebau adeiladol. Un o'r amcanion oedd datblygu perthynas gadarnhaol gydag un o'r mentoriaid gwirfoddol yn y Tîm Troseddwyr Ifanc. Er bod Dennis yn gyndyn o ymwneud â'r gwirfoddolwr i ddechrau, roedd y rheolwr achos a'r gwirfoddolwr wedi dyfalbarhau ac yn y diwedd wedi llwyddo i'w gael i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon rheolaidd yn y gampfa leol. Roedd Dennis wedi mynychu'r gampfa gyda'r mentor unwaith yr wythnos cyn dechrau mynychu ar ei ben ei hun. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**3.2** | Roedd Oliver wedi cyflawni troseddau difrifol o ladrad ac ymosodiad. Roedd ei droseddu wedi mynd o ddrwg i waeth yn fuan iawn gyda chyfres o droseddau treisgar a waethygwyd gan alcohol a chyffuriau. Roedd cyswllt da wedi'i gynnal drwy gydol y rhan o'r ddedfryd a oedd dan glo a gwnaed defnydd da o amodau cyfyngu ar ôl ei ryddhau. Roedd yn rhaid iddo gadw at gyrffyw o 12 awr a dilyn rhaglen ISSP. Roedd Oliver wedi cydymffurfio'n dda iawn ag amodau ei drwydded drwy gael cyswllt saith diwrnod yr wythnos gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc, er mwyn rhoi sylw i amryw o broblemau fel ymddygiad troseddol, cyflogaeth a hyfforddiant, camddefnyddio sylweddau, cymorth teuluol a gwneud defnydd adeiladol o'i amser hamdden. Roedd yr ymdrechion hyn wedi golygu ei fod wedi llwyddo i integreiddio'n llwyddiannus ac yn barhaus yn y gymuned ar ôl ei ryddhau. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***84%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio RoND ei wneud ar bob un o'r plant a'r bobl ifanc heblaw am dri, ac roedd wedi'i wneud ar amser. Roedd y sgrinio'n gywir mewn 82% o achosion. Lle'r oedd yn ofynnol gwneud hynny, roedd dadansoddiad llawn o RoND wedi'i wneud mewn 91%.

(2) Roedd yr asesiad o RoND yn gwneud defnydd digonol o'r holl wybodaeth briodol, gan gynnwys MAPPA ac asesiadau eraill mewn 85% o achosion.

(3) Roedd Cynllun Rheoli Risg wedi cael ei ysgrifennu ar gyfer tri chwarter yr achosion lle'r oedd angen gwneud hynny. Lle cawsant eu cynhyrchu, roeddent o ansawdd da, ar amser ac wedi cael eu goruchwylio gan reolwyr.

(4) Bron ym mhob achos a aseswyd i fod yn cyflwyno *RoN* ond nid Risg o Niwed Difrifol, roedd cynlluniau boddhaol yn eu lle i reoli'r risg.

(5) Roedd tystiolaeth bod rhai staff yn y gorffennol wedi teimlo'n ddryslyd ynghylch pa achosion oedd yn gymwys i'w hatgyfeirio at MAPPA. Roedd yn glir o'r asesiadau mwy diweddar fod y rhan fwyaf o'r staff bellach yn deall y gweithdrefnau a'u rolau yng nghyswllt MAPPA ac roedd yr atgyfeirio a'r cyswllt fel arfer yn brydlon a phriodol.

(6) Bron ym mhob achos, roedd manylion y gwaith asesu a rheoli ar gyfer RoND wedi eu cyfathrebu'n briodol i'r staff a'r asiantaethau perthnasol. Roedd yr asesiadau o RoND wedi cael eu hanfon ymlaen at y sefydliad dan glo o fewn 24 awr i'r ddedfryd ym mhob achos perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Yn y pum achos lle oedd sgrinio am RoND yn anghywir, roedd lefel y RoND bob amser wedi'i asesu i fod yn rhy isel.

(2) Lle oedd cyflawni asesiad llawn o RoND yn ofynnol, nid oedd hyn wedi'i wneud i safon foddhaol mewn 27% o achosion. Y rheswm mwyaf cyffredin dros asesu'r RoND yn annigonol oedd methu ag ystyried ymddygiad perthnasol blaenorol yn llawn.

| **1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***91%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Cafodd asesiad cychwynnol o ToA ei gyflawni ym mhob achos. Mewn 97% o'r asesiadau cychwynnol, roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei gynnwys yn weithredol, gyda'r rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn y broses mewn 94%. Roedd yr asesiad bob amser yn cael ei rannu gyda'r sefydliad dan glo mewn achosion o ddedfryd dan glo. Roedd yr adolygiadau o'r ToA ar amser mewn 79% o achosion.

(2) Roedd yr asesiadau cychwynnol bron bob amser yn brydlon, ac roeddent o safon foddhaol mewn bob un heblaw am 4 allan o'r 38 achos. Y prif reswm dros safon anfoddhaol yr asesiadau oedd methu ag adnabod ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r ymddygiad troseddol.

(3) Roedd y ffurflen *Beth ydych CHI'N ei feddwl* wedi'i defnyddio i oleuo'r asesiad cychwynnol mewn 68% o achosion. Cafwyd cyswllt gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn dros dri chwarter, a gyda darparwyr ETE, mewn dros 92% o achosion.

(4) Ym mhob achos perthnasol, cafwyd cyswllt gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol a gyda'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

(5) Roedd cynllun ymyrryd neu gontract ar gyfer bron bob plentyn neu berson ifanc. Roedd y plant a'r bobl ifanc a'r rhieni / gofalwyr yn cael eu cynnwys yn weithredol bron bob tro. Ar gyfer pob un heblaw am dri, roedd y cynllun wedi'i gwblhau ar amser. Mewn 89% o achosion, roedd y cynllun yn talu sylw digonol i'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r troseddu. Lle bo angen, roedd partneriaid allanol perthnasol bob amser yn rhan o'r broses gynllunio. Roedd y cynllun ymyrryd wedi'i adolygu'n brydlon mewn 77% o achosion.

(6) Roedd y cynllun ymyrryd neu gontract y gorchymyn atgyfeirio yn cynnwys gwaith Diogelu priodol mewn 96% o achosion; wedi eu cyfateb i anghenion troseddu cysylltiedig (86%); yn sensitif i anghenion amrywiaeth (97%); ac yn ystyried materion dioddefwyr 89%).

(7) Roedd bron bob un o'r cynlluniau ymyrryd a'r contractau gorchymyn atgyfeirio yn rhoi siâp clir i'r gorchymyn, yn canolbwyntio ar newid cyraeddadwy, yn adlewyrchu pwrpas y ddedfryd, yn gosod amcanion clir ac yn cwrdd â'r lefelau cyswllt gofynnol yn unol â safonau cenedlaethol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn defnyddio offeryn asesu cymeradwy i gadarnhau arddull ddysgu ddewisol y plant a'r bobl ifanc. Mewn tua hanner yr achosion, roedd rheolwyr achos wedi ystyried arddull ddysgu debygol y plant a'r bobl ifanc ac wedi addasu eu hymyriadau i adlewyrchu hynny.

(2) Roedd y cynllun ymyrryd neu gontract y gorchymyn atgyfeirio yn cael ei flaenoriaethu'n unol â'r *RoN* mewn dim ond 70% o achosion.

| 1.3 Diogelu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***88%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio am statws agored i niwed yn defnyddio ASSET ei wneud ym mhob achos heblaw am dri, roedd wedi'i wneud ar amser ac ym mhob achos heblaw am bump roedd o safon foddhaol. Roedd yr asesiad o anghenion Diogelu wedi cael ei adolygu fel y bo'n briodol mewn 79% o achosion. Roedd rheolwyr yn goruchwylio'n ddigonol mewn 88% o achosion.

(2) Roedd bob un o'r Cynlluniau Rheoli Agored i Niwed o safon foddhaol er na chafodd dri eu cwblhau ar amser. Ym mhob achos heblaw am un, roedd y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn cyfrannu at ac yn goleuo'r ymyriad a chynlluniau eraill.

(3) Roedd sefydliadau dan glo bob amser yn cael gwybod am faterion agored i niwed, gyda chyswllt cyson yn digwydd.

(4) Mewn chwech allan o saith o'r achosion perthnasol, roedd cyfraniad wedi'i wneud drwy'r CAF ac asesiadau a chynlluniau eraill a ddyfeisiwyd i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Mewn 6 allan o'r 23 o achosion perthnasol, nid oedd unrhyw Gynllun Rheoli Agored i Niwed.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 89%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:**

Roedd asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau ar gyfer bob un o'r achosion a arolygwyd, ar y cyfan i safon dda. Roedd yr Adroddiadau Cyn-Dedfrydu yn drylwyr a chynhwysfawr. Roedd cyswllt fel arfer yn cael ei wneud gydag ystod o bobl broffesiynol eraill fel bo angen, gyda rhannu gwybodaeth cyson. Roedd cynlluniau fel arfer wedi eu hysgrifennu i fod yn hawdd i blant a phobl ifanc eu deall, a chopi'n cael ei roi iddynt fel mater o drefn. Nid oedd y cynlluniau i gyd yn blaenoriaethu *RoN* ac nid oedd digon ohonynt yn cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau. Lle'r oedd Cynlluniau Rheoli Risg a Chynlluniau Rheoli Agored i Niwed wedi eu paratoi, roeddent fel arfer o ansawdd da. Roedd y cynlluniau hyn wedi eu hintegreiddio â chynlluniau eraill, yn cael eu rhannu gyda phartneriaid ac wedi cael eu goruchwylio'n briodol gan reolwyr. Mewn rhai achosion lle'r oedd angen cynlluniau o'r fath, nid oeddent wedi cael eu paratoi.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill* | |
| ***Sgôr:***<br>***84%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd y *RoN* wedi cael ei adolygu'n drylwyr ddim hwyrach na thri mis o ddechrau'r ddedfryd mewn 81% o achosion. Lle oedd newidiadau sylweddol wedi digwydd, roedd y *RoN* wedi cael ei adolygu'n drylwyr 70% o'r amser.

(2) Roedd newidiadau yn y *RoN* yn cael eu rhagweld lle bo hynny'n ymarferol mewn 83% o achosion perthnasol; yn cael eu hadnabod yn ddiymdroi mewn 82%; a staff yn ymateb iddynt yn briodol mewn 87%. Roedd ymweliadau cartref i bwrpas er mwyn rheoli'r *RoN* wedi cael eu gwneud mewn naw allan o ddeg achos perthnasol.

(3) Lle cynhaliwyd hwynt, roedd staff bob amser yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth, yn rhai dan glo a chymunedol.

(4) Roedd adnoddau priodol i reoli'r *RoN* wedi cael eu dyrannu drwy gydol y ddedfryd mewn 92% o achosion; roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* wedi cael eu darparu fel a gynlluniwyd mewn 94% o achosion.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Ni roddwyd blaenoriaeth ddigon uchel i ddiogelwch dioddefwyr mewn tua thraean o achosion. Nid oedd asesiad llawn o ddiogelwch dioddefwyr wedi'i wneud mewn 23% o achosion.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***92%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd ymyriadau yn y gymuned bron bob amser yn cael eu darparu'n unol â'r cynllun ymyrryd, ac yn ymgorffori unrhyw faterion amrywiaeth ac wedi eu dyfeisio i leihau'r ToA. Roeddent fel arfer yn briodol i arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc ac o ansawdd da mewn 90% o achosion.

(2) Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc bob amser wedi eu cynnwys yn briodol yn y gwaith o adolygu ymyriadau mewn achosion dan glo.

(3) Ym mhob achos heblaw am un, roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu drwy gydol y ddedfryd yn unol â'r ToA a aseswyd.

(4) Ym mhob achos yn y gymuned a than glo, roedd gweithiwr y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi ysgogi a chefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn weithredol drwy gydol y ddedfryd, gan atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.

(5) Ym mhob un o'r achosion yn y gymuned a than glo, roedd y rheolwr achos wedi cael cyswllt gweithredol gyda rhieni / gofalwyr y plentyn neu'r person ifanc fel bo'n briodol.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd cynlluniau ymyrryd yn cael eu hadolygu'n briodol mewn 30% o achosion.

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***96%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Lle bo angen, cymerwyd yr holl gamau diymdroi i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc yn y gymuned ym mhob achos. O'r rhai a oedd wedi eu dedfrydu i fod dan glo, roedd hyn wedi digwydd ym mhob achos heblaw am un.

(2) Cawsom fod yr holl gamau diymdroi angenrheidiol wedi eu cymryd i ddiogelu ac amddiffyn unrhyw blentyn neu berson ifanc arall a effeithiwyd arno ym mhob achos heblaw am un.

(3) Roedd atgyfeirio angenrheidiol, i sicrhau Diogelu, wedi'i wneud at asiantaethau perthnasol eraill ym mhob achos yn y gymuned a than glo. Roedd gweithwyr y Tîm a'r holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo Diogelwch a lles y plentyn neu'r person ifanc ym mhob achos.

(4) Roedd gweithwyr y Tîm a'r holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau parhad y gwasanaethau prif ffrwd wrth drosglwyddo o fod dan glo i'r gymuned ym mhob achos yn y sampl.

(5) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu wedi cael eu hadnabod, ac wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Agored i Niwed, ym mhob un o'r achosion cymunedol a than glo.

(6) Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol mewn 88% o achosion yn y gymuned ac mewn 71% o rai dan glo.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu yn y gymuned yn cael eu hadolygu bob tri mis neu'n dilyn newid sylweddol mewn dim ond 62% o achosion.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 91%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd yr ymyriadau wedi eu cyfateb yn dda i anghenion unigol y plant a'r bobl ifanc. Roedd lefelau uchel o gamddefnyddio sylweddau ac roedd y Tîm wedi meithrin perthynas weithio wych gyda darparwyr gwasanaethau arbenigol i ddelio â'r broblem hon. Roedd yr holl blant a phobl ifanc a oedd wedi llenwi'r holiadur wedi cael problemau camddefnyddio sylweddau ac wedi derbyn cymorth gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd y gwaith da hwn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y ffeiliau achos y gwnaethom eu darllen. Felly hefyd, roedd nifer uchel o blant a phobl ifanc wedi cael trafferth gydag ETE. Roedd perthynas dda gydag ysgolion a darparwyr hyfforddiant ac roedd y ffactorau hyn yn derbyn sylw da gan ymyriadau perthnasol. Lle'r oedd angen, roedd ymyriadau dwys yn cael eu darparu'n effeithiol drwy'r rhaglen ISSP ar lefel uchel iawn. Roedd cyswllt da gyda'r sefydliadau dan glo. Dylai adolygiadau fod yn cael eu cyflawni'n fwy prydlon mewn lleiafrif o achosion.

## 3. CANLYNIADAU

| **3.1 Sicrhau canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:*** ***70%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) *Roedd y RoN yn cael ei reoli'n effeithiol mewn 82% o achosion.*

(2) Roedd tystiolaeth o leihad yn y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu mewn bron i hanner yr achosion. Yn y rhai lle'r oedd lleihad, roedd y ffactorau'n gysylltiedig ag ETE wedi gwella mewn 62%, camddefnyddio sylweddau mewn 61% a chymhelliad i newid mewn 57%.

(3) Roedd lleihad wedi bod yn y ffactorau risg a oedd yn gysylltiedig â Diogelu mewn 55% o achosion. Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel ym mhob achos.

(4) Mewn 91% o achosion lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio ag un o amodau'r gorchymyn, roedd y Tîm wedi cymryd camau gorfodi boddhaol.

(5) Roedd lleihad wedi bod yn amledd y troseddu mewn 53% o achosion.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***99%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sylw llawn yn cael ei roi i faterion integreiddio yn y gymuned ym mhob achos yn y gymuned a than glo.


(2) Cymerwyd camau neu roedd cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal ym mhob achos heblaw am un.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 79%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Roedd staff y Tîm Troseddwyr Ifanc yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Er bod gan yr ardal lefelau cymharol uchel o amddifadedd a phroblemau cymdeithasol, roedd tystiolaeth bod y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu mewn sawl achos. Roedd hyn wedi cyfrannu at leihau amledd y troseddu mewn dros hanner yr achosion a arolygwyd. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yr un mor ddiwyd gyda'r gwaith Diogelu a rheoli *RoN.* Roedd gwaith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â thelerau eu gorchmynion wedi cael ei wneud yn dda gyda chamau gorfodi priodol yn cael eu cymryd fel bo angen. Lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud, roedd camau bron bob amser wedi eu cymryd i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal ar ddiwedd y cyswllt statudol gyda'r Tîm.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Tîm Troseddwyr Ifanc Merthyr Tudful wedi'i leoli yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 55,981 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 11.8% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Merthyr Tudful yn wyn Brydeinig yn bennaf (99%). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (1%) yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a ryportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008/2009, sef 47 am bob 1,000, fymryn yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Tîm Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r Tîm Troseddwyr Ifanc o fewn yr un ffiniau ag ar gyfer heddlu a Gwasanaeth Prawf De Cymru.

Roedd y Tîm wedi'i leoli o fewn yr Adran Gwasanaethau Integredig i Blant yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Roedd yn cael ei reoli gan Reolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Tîm yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gwasanaethau Plant. Roedd y rhan fwyaf o'r partneriaid statudol yn mynychu'n rheolaidd.

Roedd holl waith y Tîm yn cael ei reoli a'i ddarparu o swyddfa yng nghanol y dref.

### Data ar Berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Merthyr Tudful ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Tîm Troseddwyr Ifanc, mewn addysg, hyfforddiant neu waith addas, yn 62.5%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ond yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 69%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 99.1%. Roedd hyn fymryn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ac yn well na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 80%, sy'n waeth na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Math o Ddedfryd**





**Sampl Achosion: Risg o Niwed**





**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r ddedfryd**




**Sampl Achosion: Tarddiad Ethnig**




**Sampl Achosion: Rhyw**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Chwefror 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Tîm Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau *Risg* unigolion o achosi *Niwed i Eraill*. Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol.* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o |

| | |
|---|---|
| | ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA / TACAA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno *Risg o Niwed* uwch i eraill. |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 85%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolyn o achosi Niwed. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu.* |
| *'Gwaith RoN', neu 'Gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi *Risg o Niwed i eraill.* |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng *pa mor debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith / difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod *Risg o Niwed* yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith* / sy'n llai *difrifol* yn *debygol.* |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |

| | |
|---|---|
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |